| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Medi 2024 |
| **Aelod /Swyddog Arweiniol** | Julie Matthews, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Awdur yr Adroddiad** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl |
| **Teitl** | Cynllun Deisebau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â Chynllun Deisebau arfaethedig Cyngor Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I drafod y Cynllun Deisebau drafft sy'n Atodiad A.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn darparu sylwadau ac awgrymiadau ar y Cynllun Deisebau.

3.2. Argymell bod y Cynllun Deisebau yn cael ei fabwysiadu ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Adran 42 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) yn gofyn i gynghorau gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Deisebau sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt (gan gynnwys deisebau electronig). Mae copi o'r canllawiau statudol yn Atodiad B.

4.2. Mae deisebau yn un ffordd i unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy’n peri pryder i’r cyhoedd gyda’r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

4.3. Fel gofyniad lleiaf, mae’n rhaid i’r Cynllun Deisebau nodi:

- Sut y gellir cyflwyno deiseb i'r Cyngor
- Sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn cydnabod eu bod wedi derbyn y ddeiseb
- Y camau y gall y Cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a dderbynnir ganddo
- Yr amgylchiadau (os oes rhai) lle na all y Cyngor gymryd unrhyw gam pellach mewn ymateb i ddeiseb
- Sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei ymateb i ddeiseb ar gael i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd

4.4. Mae Cynllun Deisebau drafft yn Atodiad A, sy’n amlinellu pwy sy’n gallu cyflwyno deiseb i’r Cyngor, y broses i’w dilyn a sut a phryd y bydd y Cyngor yn ymateb. Ar ôl cytuno arno, bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw’r cynllun yn cyfrannu’n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol. Fodd bynnag, mae’n rhoi ffordd i’r gymuned amlygu materion sy’n peri pryder iddynt i’r Cyngor yn gyflym, ychwanegu at sylwadau cynghorwyr y ward ar eu rhan a darparu ffocws ar gyfer trafodaeth gymunedol. Yn ei dro, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth werthfawr am bryderon cymunedau ac yna gallu cefnogi’r cymunedau i fynd i’r afael â nhw.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd mân gostau ynghlwm wrth sefydlu a chynnal y cynllun, a fydd yn cael eu hysgwyddo gan gyllideb y gwasanaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes asesiad wedi’i gynnal.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Tîm Arwain Strategol wedi trafod y Cynllun Deisebau ar 19 Medi 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig â'r cynllun hwn.